Cyngor Sir CEREDIGION County Council	
ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
DYDDIAD:	19/10/2022
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Gwywiad Coed Ynn - Diweddariad er gwybodaeth
DIBEN YR ADRODDIAD:	1. Cyfleu i'r pwyllgor y cynnydd a wnaed hyd yma gyda rhaglen ar gyfer y dyfodol sy'n cyflwyno'r hyn a fydd yn digwydd nesaf. 2. Archwilio'r cyfle i sefydlu tîm o fewn yr awdurdod gyda'r peiriannau priodol i ymgymryd â'r gwaith cwympo oherwydd gallai fod yn fwy cost-effeithiol na chontractio'r gwaith allan. 3. Archwilio'r cyfle i ddefnyddio'r sgil-gynnyrch (coed wedi'u cwympo) ar gyfer biomas gan arbed rhagor i'r awdurdod.
Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:	Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022, cytunodd y Pwyllgor Craffu y dylid cyflwyno argymhelliad unwaith eto i'r Cabinet, fel a ganlyn: Bod astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal i ystyried yr opsiynau ar gyfer gwneud y gwaith hwn yn fewnol, a defnyddio'r sgil-gynnyrch i fwydo biomas yr Awdurdod, a bod hyn yn cael ei adrodd yn ôl wedyn i'r Pwyllgor.

CEFNDIR:

Bydd Gwywiad Coed Ynn yn arwain at brinder a gwywiad hyd at 95% o goed ynn yn y DU, ac mae'r onnen i'w gweld dros ardal eang ledled Cymru a Cheredigion. Mae hyn yn cynnwys y tu allan i goetiroedd ar ffurf gwrychoedd a choed unigol ar hyd ffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus eraill ac mewn mannau cyhoeddus. Mae'r onnen, ochr yn ochr â'r dderwen a'r ffawydden, yn un o'r tri phrif fath o goeden perth sydd gennym.

Y risg yw bod coed marw a'r rhai sy'n cario'r clefyd yn debygol o achosi perygl o ran iechyd a diogelwch i'r cyhoedd, ynghyd â chael effaith sylweddol ar yr economi, yr amgylchedd a'r tirlun.

Mae gwybodaeth fanylach ynghlwm wrth yr adroddiad.

Atodiad 1 - Amserlen a rhaglen y dyfodol

Atodiad 2 - Astudiaeth ar sefydlu tîm o fewn yr awdurdod gyda'r offer a'r peiriannau priodol i wneud y gwaith torri coed sydd ei angen - ymarfer effeithlonrwydd cost.

Atodiad 3 - Astudiaeth ar Gadw a Defnyddio neu Werthu Biomas (pren a/neu naddion pren) sy'n Deillio o'r Prosiect Gwywiad Coed Ynn

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam**	Oes
	Crynodeb:	
	Hirdymor:	Helpu i warchod manteision coetiroedd ynn yng Ngheredigion gan sicrhau diogelwch ein dinasyddion.
	Integreiddio:	Adeiladu cadernid economaidd ac amgylcheddol tuag at y clefyd hwn a thuag at blâu a chlefydau eraill.
	Cydweithio:	Arwain ac annog tirfeddianwyr, dinasyddion a'r diwydiant i gymryd rhan mewn gwyliadwriaeth, monitro a gweithredu wrth ymateb i Wywiad Coed Ynn. Sicrhau bod gwybodaeth ar y we ynghylch Gwywiad Coed Ynn yng Ngheredigion yn parhau'n gyfredol.
	Cynnwys:	Cynnal gwyliadwriaeth dargededig, gwneud gwaith maes i gadarnhau damcaniaethau a gallu diagnostig ar gyfer Gwywiad Coed Ynn yng Ngheredigion. Ymgysylltu â gwyddoniaeth dinasyddion i gynorthwyo i adeiladu ar gapasiti iechyd coed a chynorthwyo i fonitro Gwywiad Coed Ynn.
	Atal:	Dynodi coed ynn sy'n wydn yn wyneb y clefyd a'u defnyddio ar gyfer 'stoc had' i ailblannu yn y dyfodol.

ARGYMHELLION:

Diweddariad er gwybodaeth yn unig.

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Amherthnasol

Enw Cyswllt: Phil Jones

Swydd: Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Priffyrdd

Dyddiad yr Adroddiad:	19/10/2022
Acronymau:	GCY - Gwywiad Coed Ynn CGGCY - Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn HDG - Hawl Dramwy Gyhoeddus LlC - Llywodraeth Cymru CLILC - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru CSSC - Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru
Atodiadau:	Fel yr amlinellwyd uchod